YMGYSYLLTU Â GOROESWYR TRAIS YN ERBYN MENYWOD, CAM-DRIN DOMESTIG, A THRAIS RHYWIOL (VAWDASV) CYMRU

Adroddiad Terfynol

Athro Emily Underwood-Lee a'r Dr Sarah Wallace

Prifysgol De Cymru

Medi 2022

Diolchiadau

Hoffai'r tîm astudio ddiolch i Aelodau Rhwydwaith Ymchwil VAWDASV am eu cefnogaeth, o ran eu cyfranogiad ac wrth godi ymwybyddiaeth o'r arolwg, tîm VAWDASV LlC, a phawb a gymerodd ran yn ddienw yn yr arolwg.

Cynnwys

GEIRFA ALLWEDDOL 4**4**4

CYFLWYNIAD 5**5**5

DULLIAU 6**6**6

CANLYNIADAU'R AROLWG 7**7**7

CRYNODEB 13**13**13

CYFEIRNODAU 14**14**14

ATODIADAU 15**15**15

GEIRFA ALLWEDDOL

Cyfranogwr – unrhyw un a ddewisodd gwblhau'r arolwg fel rhan o'r ymchwil hwn.

Tramgwyddwr – unrhyw un sydd wedi cyflawni gweithred o VAWDASV beth bynnag fo'r rhywedd, rhyw, oedran, hil, anabledd, dosbarth, neu nodwedd warchodedig arall. Gall tramgwyddwyr fod yn oroeswyr hefyd.

Goroeswr – unrhyw un sydd wedi dioddef unrhyw fath o VAWDASV waeth beth fo'r rhywedd, rhyw, oedran, hil, anabledd, dosbarth, neu nodwedd warchodedig arall. O fewn yr adroddiad hwn rydym wedi dewis defnyddio'r term 'goroeswr', er ei fod yn aml yn cael ei ysgrifennu fel 'dioddefwr/goroeswr' neu 'dioddefwr' yn unig. Lle rydym wedi cynnwys dyfyniadau uniongyrchol o'r arolwg, rydym wedi cadw'r derminoleg a ddefnyddiwyd gan y cyfranogwr.

Sector VAWDASV – unrhyw sefydliad neu ddarparwr gwasanaeth sy'n gweithio yn VAWDASV a meysydd cysylltiedig â chyfrifoldeb dros gefnogi neu ymgysylltu â goroeswyr.

Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, a thrais rhywiol (VAWDASV) – Daw'r derminoleg o Ddeddf VAWDASV (Cymru) 2015. [1] Mae'n cynnwys Cam-drin Domestig, Treisio a Thrais Rhywiol, Aflonyddu Rhywiol, Trais ar Sail Rhywedd e.e., Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, trais 'ar sail anrhydedd', Priodas Dan Orfod, Stelcian/Aflonyddu, Masnachu mewn Pobl.

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/3/contents/enacted/welsh

CYFLWYNIAD

Cefndir a nod

Nod yr ymchwil hon oedd deall arferion o ran ymgysylltu â goroeswyr ar hyn o bryd o fewn sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) Cymru, a chlywed ganddyn nhw.

Gweithiodd Prifysgol De Cymru (PDC) gyda thîm VAWDASV Llywodraeth Cymru (LlC) mewn partneriaeth a sefydlwyd trwy Rwydwaith Ymchwil VAWDASV Cymru. Arweiniwyd tîm yr astudiaeth gan Dr Sarah Wallace (Prifysgol De Cymru) gyda'r Athro Emily Underwood-Lee (PDC), Amy Jones (LlC), a Rebecca Griffiths (LlC).

Mae Rhwydwaith Ymchwil VAWDASV Cymru wedi ymrwymo i archwilio'r ffordd orau y gallwn ymgysylltu â goroeswyr yn ein gwaith, a chlywed ganddyn nhw. Mae LlC hefyd wedi amlinellu eu hymrwymiad i greu Glasbrint Ymgysylltu â Goroeswyr yn Strategaeth Genedlaethol VAWDASV LlC (2022-26). [2] Oherwydd ein diddordeb cyffredin mewn deall arferion ymgysylltu â goroeswyr, daeth tîm VAWDASV LlC a Rhwydwaith Ymchwil VAWDASV Cymru at ei gilydd i gynnal arolwg gyda'r darparwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol sector VAWDASV.

[2] https://llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/5/2/1653389005/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-strategaeth-2022-i-2026.pdf

DULLIAU

Casglu a dadansoddi data

Crëwyd arolwg ar-lein, dwyieithog (Atodiad 1) gan ddefnyddio'r Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (Jisc, a elwir yn ffurfiol yn Arolwg Ar-lein Bryste, BOS). [3] Datblygwyd cwestiynau'r arolwg ar y cyd gan y tîm ymchwil yn PDC a LlC. Lansiwyd yr arolwg ar 11 Ebrill 2022 a daeth i ben ar 16 Mai 2022. Cafodd gwahoddiadau i gymryd rhan a thaflen wybodaeth i gyfranwyr (Atodiad 2) eu dosbarthu drwy rwydweithiau tîm VAWDASV LlC a Rhwydwaith Ymchwil VAWDASV Cymru. Roedd y cyfranogwyr yn dod o blith aelodau'r rhwydweithiau hyn ac wedi'u hunan-ddethol e.e., gweithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaethau yn gweithio yn y sector VAWDASV a meysydd cysylltiedig â chyfrifoldeb dros gefnogi neu ymgysylltu â goroeswyr. Mae'r dadansoddiad wedi'i gyfyngu gan y nifer fach o ymatebion a gafwyd (n=20); fodd bynnag, mae'r ystod o safbwyntiau sefydliadol a gynrychiolir a'r cyrhaeddiad ledled Cymru'n awgrymu bod y canfyddiadau hyn yn darparu dangosyddion defnyddiol am waith ymgysylltu â goroeswyr yng Nghymru.

Dadansoddi data

Dadansoddwyd data'r arolwg drwy Jisc gan ddefnyddio ystadegau disgrifiadol, a dadansoddwyd ymatebion testun rhydd yn thematig.[4]

Moeseg

Sicrhawyd caniatâd moeseg ar gyfer yr astudiaeth gan Bwyllgor Moeseg Gwyddorau Bywyd ac Addysg PDC ym mis Ebrill 2022 [CYF:220302LR].

[3] https://www.onlinesurveys.ac.uk/
[4] Braun, Victoria, a Victoria Clarke. 2022. *Thematic Analysis : a Practical Guide*. Llundain: SAGE Publications..

CANLYNIADAU'R AROLWG

Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn cyflwyno data a ddadansoddwyd o'r arolwg ar-lein a gasglwyd rhwng 11 Ebrill a 16 Mai 2022. Derbyniwyd 20 o ymatebion i'r arolwg a chwblhaodd yr holl ymatebwyr fersiwn Saesneg yr arolwg. Roedd yr arolwg yn cynnwys deuddeg cwestiwn, sef saith cwestiwn aml-ddewis gydag opsiwn i ddarparu testun ychwanegol a phum cwestiwn testun agored. Mae'r canlyniadau a gyflwynir yma yn cynnwys data meintiol ac ansoddol. Darperir yr holl ddata testun rhydd ac ymatebion 'arall' (Atodiad 3).

Rhannwyd yr arolwg yn ddwy adran gyffredinol:

- Adran A - Ynglŷn â'ch sefydliad
- Adran B - Ymgysylltu â Goroeswyr

Adran A – Ynglŷn â'ch sefydliad

Roedd Cwestiwn 1 yn gofyn i ba sefydliad roedd cyfranogwyr yn gweithio ac roedd Cwestiwn 11 yn gofyn am unrhyw ymgynghoriadau byw gyda goroeswyr. Hepgorwyd y naill a'r llall o'r dadansoddiad hwn er mwyn cadw cyfrinachedd.

C2. Ym mha ranbarth o Gymru rydych chi?

Derbyniwyd ymatebion gan amryw o sefydliadau yn arbenigo mewn VAWDASV ac roedden nhw'n cynrychioli holl ranbarthau Cymru. Fel y gwelir isod, derbyniwyd y nifer uchaf o ymatebion gan fudiadau Cymru Gyfan (n=5), a rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru (n=5).



C3. Ydy eich sefydliad yn ymgysylltu â goroeswyr?

Cadarnhaodd 95% (n=19) o'r sefydliadau eu bod yn ymgysylltu â goroeswyr, naill ai fel rhan graidd o'u gwaith (n=16), neu fel rhan o brosiectau/ymgynghoriadau penodol (n=3).



Adran B - Ymgysylltu â Goroeswyr

C4. Oes gennych chi staff/aelodau tîm dynodedig ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr?

Dywedodd dros hanner y sefydliadau (63%, n=12) bod ganddynt staff/aelodau tîm dynodedig ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr, roedd 26% (n=5) heb, ac atebodd 11% (n=2) 'arall'.



'Arall'

> *Mae gennym swyddog arweiniol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr, ond mae llawer o staff yn ymwneud ag ymgysylltu â goroeswyr fel rhan o'u rôl.*
>
> *Mae ymgysylltu â Dioddefwyr a Goroeswyr wedi'i gynnwys yn ein rolau fel rhan o dîm [enw]; fodd bynnag, mae gennym dîm ymgysylltu rydyn ni hefyd yn gweithio gyda nhw, ond mae eu cylch gwaith yn ehangach.*

C5. Tua pha mor aml ydych chi'n ymgynghori/ymgysylltu'n ffurfiol â goroeswyr y tu allan i'ch gweithgareddau arferol?

Mae'r rhan fwyaf o sefydliadau a ymatebodd yn ymgynghori neu'n ymgysylltu'n ffurfiol â goroeswyr y tu allan i'w gweithgareddau arferol fwy na thair gwaith y flwyddyn (n=12), ac wyth yn gwneud hynny o leiaf unwaith y mis neu fwy.

C6. Sut ydych chi'n ymgysylltu â goroeswyr?

Y ffordd fwyaf cyffredin roedd sefydliadau'n ymgysylltu â goroeswyr oedd drwy oroeswyr yn ffurfio rhan o dimau llywodraethu'r sefydliadau (24%). Y modd lleiaf cyffredin oedd drwy gylchlythyrau penodol i oroeswyr, y cyfryngau cymdeithasol, rhwydweithio ar-lein, a thudalennau gwe (15%), ac yna rhwydweithiau penodol i oroeswyr (18%).



Cafwyd wyth ymateb 'arall' fel rhan o'r cwestiwn hwn. Yn ogystal â'r opsiynau uchod, roedd ffyrdd eraill o ymgysylltu â goroeswyr yn cynnwys defnyddio arolygon, drwy ddigwyddiadau, paneli, cyfarfodydd rheolaidd, cefnogaeth gan gyfoedion, a chynadleddau blynyddol.

C7. Pa gefnogaeth rydych chi'n ei chynnig i oroeswyr i'w galluogi i ymgysylltu'n ystyrlon?

Darparu cefnogaeth emosiynol, a chymorth ymarferol oedd y mathau mwyaf cyffredin o gefnogaeth a gynigir gan sefydliadau i alluogi ymgysylltu ystyrlon gan oroeswyr (79%). O ran cymorth ariannol, talu goroeswyr am eu hamser oedd y math o gymorth oedd yn cael ei gynnig lleiaf aml (16%), gyda sefydliadau'n fwy tebygol o ad-dalu goroeswyr am dreuliau'n gysylltiedig â chymryd rhan (37%).



Cafwyd chwe ymateb 'arall ', dri ohonynt yn ffocysu ar gefnogaeth ariannol:

> *Lle rydym wedi gofyn am gyfranogiad dros gyfnod hirach gan oroeswyr, byddwn yn cefnogi gyda rhyw fath o gymorth drwy dalebau/arian.*
>
> *Cynigir rhywfaint o gymorth ariannol pan fo hynny'n briodol ar gyfer darnau o waith – mae cadw perthynas wirfoddol yn bwysig i lawer.*
>
> *Rydym yn gweithio tuag at gynnig cefnogaeth ariannol lle mae goroeswyr yn cael eu had-dalu am eu costau, fodd bynnag nid yw hyn wedi ei gwblhau eto.*

C8. Yn eich profiad chi, beth yw'r tri hwylusydd gorau sy'n galluogi goroeswyr i ymgysylltu'n ystyrlon?

O'r un deg nawr sefydliad a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd hwyluswyr allweddol yn rhannu'n bum maes thematig:

- ymddiriedaeth a chyfrinachedd,
- cymorth (e.e., emosiynol, ymarferol, a hyfforddiant),
- diogelwch (yn emosiynol ac o ran yr amgylchedd),
- bod â hyder yn arbenigedd y mudiad,
- derbyn y wybodaeth gyfredol ddiweddaraf (derbyn adborth).

Gellir grwpio cefnogaeth ymarferol yr ystyriwyd ei bod yn llwyddo i alluogi goroeswyr i ymgysylltu'n ystyrlon i'r tri maes canlynol:

- iaith gan gynnwys cyfieithu, cael gwybodaeth o flaen llaw, a sicrhau bod goroeswyr yn deall yn glir yr hyn mae gofyn iddynt ei wneud,

- darparu gofal plant, mannau hyblyg ac oriau hyblyg,
- cael eu talu neu eu had-dalu am eu hamser a threuliau fel teithio.

C9. Yn eich profiad chi, beth yw'r tri rhwystr pennaf sy'n atal goroeswyr rhag ymgysylltu'n ystyrlon?

Gan fwyaf, y ffactorau oedd yn atal goroeswyr rhag ymgysylltu'n ystyrlon oedd absenoldeb yr hyn a nodir uchod, h.y., diffyg ymddiriedaeth neu hyder rhwng y goroeswr a'r sefydliad, absenoldeb cefnogaeth emosiynol neu ymarferol, iaith anhygyrch, absenoldeb gofal plant, absenoldeb cefnogaeth ariannol. Gallai rwystrau fel goroeswyr yn teimlo na fyddan nhw'n cael eu credu, ofn a phryder am yr hyn i'w ddisgwyl, nerfusrwydd ynghylch siarad allan, ofn na fyddan nhw'n cael eu cefnogi'n ddigonol, na fydd pobl yn gallu darparu ar gyfer eu hanghenion penodol neu y gallai cyfrinachedd gael ei dorri gael eu lliniaru gan y galluogwyr a nodir uchod. Roedd rhwystrau ychwanegol yn cynnwys goroeswyr yn peidio â'u hystyried eu hunain yn abl i gyfrannu naill ai oherwydd eu bod yn teimlo nad oes ganddynt y sgiliau, y wybodaeth na'r arbenigedd priodol neu oherwydd ble yn y daith oroesi y maen nhw.

C10. Allwch chi roi hyd at dair enghraifft o fesurau rydych chi wedi'u mabwysiadu o fewn eich sefydliad i ymgysylltu'n llwyddiannus â goroeswyr?

Roedd mesurau a roddwyd ar waith gan sefydliadau'n amrywiol, ond roedden nhw mewn tri maes bras:

- gwybodaeth a chefnogaeth cyn yr ymgysylltu.
- cymorth ymarferol ac emosiynol wrth ymgysylltu.
- cefnogaeth barhaus, hirdymor nad yw'n "parasiwtio" goroeswyr i mewn neu'n camfanteisio ar eu gwybodaeth.

Amser, rhoi amser i gleient, amser i deimlo'n gyfforddus gyda'r gweithiwr cymorth, sy'n caniatáu perthynas waith bositif a chyfforddus.

Bod yn hyblyg bob amser gydag amseroedd a dyddiadau, gan egluro'r rhesymau dros yr ymgysylltu a gweithredu ar adborth, grymuso goroeswyr trwy gymorth.

Cydnabod goroeswyr fel arbenigwyr, staff ymroddedig sy'n cefnogi eu hanghenion emosiynol, yn darparu lle diogel i gwrdd.

Roed cefnogaeth yn cael ei chynnig gan y sefydliadau eu hunain a hefyd drwy hwyluso cymorth gan gyfoedion. Yn allweddol i bob mesur roedd bod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion goroeswyr fel y cânt eu mynegi gan oroeswyr a bod angen ymgysylltu hirdymor.

C12. Oes unrhyw wybodaeth arall yr ydych am ei rhannu ynghylch ymgysylltu â goroeswyr?

Cafwyd 16 ymateb i'r cwestiwn hwn. Y prif bwyntiau i'w nodi oedd:

- mae gwaith gyda goroeswyr yn gofyn am fuddsoddiad hirdymor ac mae angen buddsoddi amser staff ac adnoddau ariannol.
- ystyrir bod ymgysylltu â goroeswyr, tramgwyddwyr, teuluoedd estynedig gan gynnwys plant a phobl ifanc, a'r gymuned yn allweddol i atal VAWDASV yn llwyddiannus.
- mae angen cyd-greu gwaith gyda goroeswyr, yn ymateb i anghenion goroeswyr, a gwerthfawrogi goroeswyr fel arbenigwyr yn eu profiad eu hunain.

CRYNODEB

Datgelodd yr ymchwil:

- Mae bron pob sefydliad ac unigolyn a ymatebodd i'r arolwg hwn, ac sy'n nodi eu bod yn gweithio yn sector VAWDASV yng Nghymru, eisoes yn ymgysylltu â goroeswyr ac wedi sefydlu methodolegau ar gyfer gwneud hynny. Mae goroeswyr yn adrodd rhwystredigaeth o glywed yr un cwestiynau'n cael eu gofyn iddynt gan wahanol asiantaethau.
  Argymhelliad: Ni ddylid anwybyddu cyfoeth y wybodaeth a'r rhwydweithiau presennol.
- Mae ymgysylltu â goroeswyr yn gymhleth gyda nifer o rwystrau'n atal ymgysylltu. Mae'n gofyn am amser, gwybodaeth, ac adnoddau i ymgysylltu â goroeswyr, gan sefydliadau a gan y goroeswyr eu hunain.
  Argymhelliad: Mae angen cyllid cynaliadwy ar sefydliadau i alluogi ymgysylltu â goroeswyr ac mae angen cydnabyddiaeth ariannol priodol ar oroeswyr am eu hamser a'u harbenigedd.
- Mae ffactorau cymdeithasol a diwylliannol yn gwahaniaethu rhwng gwahanol oroeswyr ac mae angen i gefnogaeth gael ei theilwra'n unol â hynny.
  Argymhelliad: Rhaid i ymgysylltu â goroeswyr gael ei arwain gan anghenion, er enghraifft darparu esboniadau hawdd eu darllen, cyfieithwyr, safleoedd hygyrch, a gofal plant yn ôl yr angen.
- Mae cyd-ymddiriedaeth a pharch rhwng goroeswyr a sefydliadau yn allweddol ac mae angen amser i greu hynny. Mae goroeswyr yn aml yn amharod i gymryd rhan am fod ofn arnynt na fyddan nhw'n cael eu credu neu y bydd cyfrinachedd yn cael ei dorri.
  Argymhelliad: Mae angen ystyried ymgysylltu â goroeswyr yn weithgaredd annatod ac mae angen buddsoddiad hirdymor a staff arbenigol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd â'r llenyddiaeth sydd eisoes yn bodoli ar ymgysylltu llwyddiannus ac ystyrlon â goroeswyr (cf. Stanley et al, 2021; Ffederasiynau Cymorth i Fenywod, 2020; Taylor a Clarence, 2021, Llywodraeth Cymru, 2022, Cymorth i Ferched Cymru, 2022).

CYFEIRNODAU

Stanley, Nicky, Christine Anne Barter, Kelly Bracewell, Khatidja Chantler, Emma Howarth, Lorraine Radford, Helen Richardson Foster et al. (2021) *Roadmap Report and Executive Summary.* Ar gael yn: http://clok.uclan.ac.uk/39447/2/Roadmap_Report_280921.pdf.

Taylor, Jessica, a Bramley Clarence (2021) *''Beneficial but triggering': Experiences and support of survivor speakers in the UK*. Ar gael yn: https://irp.cdn-website.com/f9ec73a4/files/uploaded/Beneficial%20but%20Triggering%20Report%202021%20FINAL.pdf.

Women's Aid Federations (2020) *Research Integrity Framework on Domestic Violence and Abuse.* Ar gael yn: https://www.womensaid.org.uk/wp-content/uploads/2020/11/Research-Integrity-Framework-RIF-on-Domestic-Violence-and-Abuse-DVA-November-2020.pdf.

Llywodraeth Cymru (2021) *Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022 i 2026.* Ar gael yn: https://llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2022/5/2/1653389005/trais-yn-erbyn-menywod-cam-drin-domestig-thrais-rhywiol-strategaeth-2022-i-2026.pdf

Cymorth i Ferched Cymru (2022) Cyfranogiad Ystyrlon Goroeswyr. Pecyn cymorth ymgysylltu ar gyfer sefydliadau. Ar gael yn: https://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2022/03/Survivor-Engagement-Toolkit-CYM.pdf

ATODIADAU

Atodiad 1 – Cwestiynau'r arolwg

Adran un: Ynglŷn â'ch sefydliad

1. Pa sefydliad ydych chi'n ei gynrychioli? (testun rhydd)
2. Ym mha ranbarth yng Nghymru rydych chi? (aml-ddewis)
    a. Gogledd
    b. Canolbarth a Gorllewin Cymru
    c. Bae'r Gorllewin Abertawe
    d. Cwm Taf Morgannwg
    e. Caerdydd a'r Fro
    f. Gwent
    g. Cymru gyfan
3. Ydy eich sefydliad yn ymgysylltu â goroeswyr? (dewis sengl)
    a. Fel rhan graidd o'n gwaith
    b. Ar brosiectau/ymgynghoriadau penodol ac ati
    c. Nid yw ein sefydliad yn ymgysylltu â goroeswyr

Adran dau: Ymgysylltu â goroeswyr

4. Oes gennych chi staff/aelodau tîm dynodedig ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr? (dewis sengl)
    a. Oes
    b. Nac oes
    c. Arall: (nodwch os gwelwch yn dda)
5. Tua pha mor aml ydych chi'n ymgynghori/ymgysylltu'n ffurfiol â goroeswyr y tu allan i'ch gweithgareddau arferol? (dewis sengl)
    a. O leiaf unwaith y mis neu fwy
    b. 3 neu 4 gwaith y flwyddyn
    c. Llai na 3 gwaith y flwyddyn
6. Sut ydych chi'n ymgysylltu â goroeswyr? (dewis lluosog)
    a. Mae goroeswyr yn rhan graidd o'n gwaith ac ynghlwm wrth y cyfan a wnawn ar bob lefel, mae goroeswyr ynghlwm wrth y gwaith o ddylunio a chynnal prosiectau penodol
    b. Rydym yn ymgynghori gyda goroeswyr i gael gwybod beth yw eu hanghenion, eu barn a'u profiadau, mae goroeswyr yn rhan o'n tîm llywodraethu/rheoli
    c. Rydym yn hwyluso/cynnal/cefnogi rhwydwaith penodol i oroeswyr
    d. Mae gennym gylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol, rhwydweithiau ar-lein, tudalennau gwe penodol ac ati ar gyfer goroeswyr
    e. Arall: (nodwch os gwelwch yn dda)
7. Pa gefnogaeth rydych chi'n ei chynnig i oroeswyr i'w galluogi i ymgysylltu'n ystyrlon? (dewis lluosog)

    a. Emosiynol (e.e., gwaith therapiwtig ffurfiol neu anffurfiol, cymorth gan gymheiriad, creu gofod diogel lle gall goroeswyr deimlo bod eu cyfraniad yn cael ei werthfawrogi ac ati)
    b. Ariannol (telir goroeswyr yn cael am eu hamser)
    c. Ariannol (Caiff goroeswyr eu digolledu am dreuliau e.e., gofal plant. trafnidiaeth, offer TG ac ati)
    d. Ymarferol (Helpu goroeswyr i rannu eu stori, rheoli'r ffordd maen nhw'n cael eu cynrychioli a chael eu clywed)
    e. Arall: (nodwch os gwelwch yn dda)
8. Yn eich profiad chi, beth yw'r tri hwylusydd gorau sy'n galluogi goroeswyr i ymgysylltu'n ystyrlon? (testun rhydd)
9. Yn eich profiad chi, beth yw'r tri rhwystr pennaf sy'n atal goroeswyr rhag ymgysylltu'n ystyrlon? (testun rhydd)
10. Allwch chi roi hyd at dair enghraifft o fesurau rydych chi wedi'u mabwysiadu o fewn eich sefydliad i ymgysylltu'n llwyddiannus â goroeswyr? (testun rhydd)
11. Oes gennych chi unrhyw ymgynghoriadau sydd wedi'u cyhoeddi, yn fyw neu ar y gweill yr hoffech eu rannu gyda ni? Rhowch URL lle bo'n bosibl. (testun rhydd)
12. Oes unrhyw wybodaeth arall yr ydych am ei rhannu ynghylch ymgysylltu â goroeswyr? (testun rhydd)

Atodiad 2 - Taflen wybodaeth i gyfranogwyr

Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn arolwg ymchwil ar-lein. Mae'r astudiaeth yn gydweithrediad rhwng Prifysgol De Cymru a thîm VAWDASV Llywodraeth Cymru. Cyn i chi benderfynu a hoffech gymryd rhan, mae angen i chi ddeall pam mae'r ymchwil yn cael ei gwneud a beth fyddai'n ei olygu i chi. Neilltuwch amser i ddarllen y wybodaeth ganlynol yn ofalus. Treuliwch amser yn penderfynu a ydych am gymryd rhan ai peidio. Os hoffech ragor o wybodaeth cysylltwch â Dr Sarah Wallace sarah.wallace@southwales.ac.uk neu'r Athro Emily Underwood-Lee Emily.underwood-lee@southwales.ac.uk.

1. **Diben yr astudiaeth**

Diben yr astudiaeth hon yw deall arferion ymgysylltu â goroeswyr ar hyn o bryd yn sector VAWDASV Cymru.

2. **Pam ydw i wedi cael gwahoddiad?**

Rydym yn gwahodd gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector VAWDASV neu sydd â diddordeb proffesiynol mewn cefnogi goroeswyr VAWDASV yng Nghymru i gymryd rhan yn yr arolwg ar-lein. Mae eich cyfranogiad yn bwysig er mwyn ein helpu i ddeall arferion ymgysylltu â goroeswyr VAWDASV ledled Cymru ar hyn o bryd.

3. **Oes rhaid i fi gymryd rhan?**

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol, a chi sydd i benderfynu a hoffech gymryd rhan. Darllenwch y daflen wybodaeth hon i'ch helpu i benderfynu. Rydych yn rhydd i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm a heb ganlyniadau i chi'ch hun.

4. **Treuliau a thâl**

Nid oes tâl am gymryd rhan yn yr arolwg ac nid ydym yn rhagweld y byddwch yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i gymryd rhan.

5. **Beth fydd rhaid i fi ei wneud i gymryd rhan?**

Os byddwch yn penderfynu cymryd rhan, gofynnir i chi gwblhau'r arolwg ar-lein byr, sy'n cynnwys 12 cwestiwn atebion byr amdanoch chi/gwaith eich sefydliad wrth ymgysylltu â goroeswyr VAWDASV. Nid oes rhaid i chi ateb unrhyw gwestiynau nad ydych eisiau a gallwch adael yr arolwg ar unrhyw adeg drwy gau'r ffenestr.

Cyn i chi ddechrau, dywedir wrthoch chi bod cwblhau'r arolwg ar-lein yn dangos eich bod yn cytuno i gymryd rhan. Gofynnir i chi roi tic wrth y datganiadau i gadarnhau eich cydsyniad i gymryd rhan cyn i chi allu cael mynediad at y cwestiynau.

Dylai'r arolwg ar-lein gymryd tua 10-15 munud i'w gwblhau. Gallwch dynnu'n ôl o'r arolwg ar unrhyw adeg drwy gau'r ffenestr ac ni fydd eich data yn cael ei gadw. Dim ond os byddwch yn cyflwyno'ch ymatebion ar ddiwedd yr arolwg y bydd data'n cael ei gadw a'i ddefnyddio.

6. **Beth yw'r anfanteision a'r risgiau posibl o gymryd rhan?**

Nid ydym yn rhagweld unrhyw risgiau, anghysur nac anghyfleustra o gymryd rhan yn yr arolwg hwn. Gallwch dynnu'n ôl unrhyw bryd. Gallwch chi wneud hyn drwy gau'r ffenestr ac ni fydd eich data'n cael ei gadw.

Os byddwch am drafod unrhyw faterion sy'n codi o'r broses, cewch gyfle i drafod y rhain yn dilyn yr arolwg neu drwy gysylltu â'r ymchwilwyr gan ddefnyddio'r manylion a ddarperir yn y ddalen wybodaeth hon.

7. **Beth yw'r manteision posib o gymryd rhan?**

Ni allwn addo y bydd yr astudiaeth yn eich helpu'n uniongyrchol, ond gall y wybodaeth a gawn o'r astudiaeth helpu i wella sut rydym yn ymgysylltu â goroeswyr VAWDASV, ac yn clywed eu lleisiau.

8. **Beth os oes problem?**

Os cewch broblem gyda'r astudiaeth hon, neu os ydych am gwyno amdani, cysylltwch i ddechrau â'r tîm ymchwil, Dr Sarah Wallace sarah.wallace@southwales.ac.uk neu'r Athro Emily Underwood-Lee

Emily.underwood-lee@southwales.ac.uk. Os ydych yn parhau i deimlo'n anhapus ac am gwyno'n ffurfiol gallwch gysylltu â Jonathan Sinfield, Rheolwr Llywodraethiant Ymchwil a Datblygu Busnes, Prifysgol De Cymru, Jonathan.sinfield@southwales.ac.uk, a fydd yn eich cyfeirio at weithdrefn gwynion Prifysgol De Cymru.

9. A fydd fy nghyfranogiad yn yr astudiaeth yn cael ei gadw'n gyfrinachol?

Mae cyfrinachedd yn bwysig iawn a chaiff ei gynnal lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, mae adegau pan nad oes modd gwarantu cyfrinachedd. Os, drwy'r arolwg, yw'r hyn rydych chi wedi'i ddweud yn achosi pryder y gallai fod gweithgaredd anghyfreithlon ar waith neu weithgaredd amhroffesiynol a allai fod o niwed posibl i chi'ch hun neu eraill mae dyletswydd ar yr ymchwilydd i adrodd am hyn.
Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol, ac yn unol ag egwyddorion Caldicott a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).
Bydd yr arolwg ar-lein yn gofyn i chi gadarnhau eich caniatâd i gymryd rhan drwy gytuno i ddatganiadau cyn i chi gael mynediad i'r cwestiynau. Dim ond os byddwch yn cyflwyno eich ymatebion ar y diwedd y bydd data'n cael ei gadw a'i ddefnyddio. Bydd yr ymatebion yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael eu gwaredu'n ddiogel ar ôl 5 mlynedd yn unol â'r canllawiau a argymhellir.

10. Beth fydd yn digwydd os na fyddaf yn parhau â'r astudiaeth?

Rydych yn rhydd i dynnu'n ôl o'r astudiaeth hon heb roi rheswm a heb ganlyniadau i chi'ch hun. Gan fod yr arolwg ar-lein yn ddienw, gynted ag y byddwch wedi cyflwyno eich ymatebion ar y diwedd, ni ellir tynnu eich data'n ôl gan nad ydym yn gallu olrhain ymatebion yn ôl i gyfranogwyr unigol.

11. Beth fydd yn digwydd i ganlyniadau'r astudiaeth?

Bydd canfyddiadau'n cael eu rhannu drwy aelodaeth Ymchwil VAWDASV Cymru a'r tîm VAWDASV, rhwydweithiau Llywodraeth Cymru, a byddant yn cael eu rhannu ar wefannau'r ddau sefydliad, cyfryngau cymdeithasol a mannau eraill, fel y tybir eu bod yn briodol. Gellir cyhoeddi canfyddiadau o fewn cyfnodolion proffesiynol a/neu eu rhannu drwy gynadleddau. Ni fydd modd eich adnabod mewn unrhyw adroddiadau, erthyglau neu gyflwyniadau.

12. Pwy sy'n trefnu'r astudiaeth?

Mae'r astudiaeth yn cael ei harwain gan Brifysgol De Cymru ac mae'n gydweithrediad â thîm VAWDASV Llywodraeth Cymru.

13. Hysbysiad Preifatrwydd Diogelu Data

Y rheolwr data ar gyfer y prosiect hwn fydd Prifysgol De Cymru. Mae Rheolwr Cydymffurfio'r Brifysgol yn goruchwylio gweithgareddau'r brifysgol, gan gynnwys prosesu data personol. Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data Prifysgol De Cymru yn: dataprotection@southwales.ac.uk.
Os ydych yn pryderu am sut mae eich data personol yn cael ei brosesu, cysylltwch â: dataprotection@southwales.ac.uk.
Mae manylion eich hawliau unigol ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn: https://ico.org.uk/fororganisations/data-protection-reform/overview-of-the-gdpr/individuals-rights/

14. Rhagor o wybodaeth a manylion cyswllt:

Os oes gennych ragor o ymholiadau cysylltwch â:

Dr Sarah Wallace
Uwch Gymrawd Ymchwil
Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru
Prifysgol De Cymru
Sarah.wallace@southwales.ac.uk

Yr Athro Emily Underwood-Lee
Canolfan Adrodd Storïau George Ewart Evans
Prifysgol De Cymru
Emily.underwood-lee@southwales.ac.uk

Atodiad 3 – Ymatebion testun rhydd ac 'arall'

Cwestiwn 6: Sut rydych chi'n ymgysylltu â goroeswyr?

1. Gwaith cymorth partner o ganlyniad i gyn/partneriaid yn mynychu Rhaglen Tramgwyddwyr Cam-drin Domestig.
2. Cefnogi a cheisio annog ymgysylltu â lleoliadau addysg.
3. Rydym yn ymgynghori â goroeswyr i gael gwybod beth yw eu hanghenion, eu barn, a'u profiadau hefyd.
4. Mewn cyfweliad ymadael ac yn ystod ein cynhadledd flynyddol. Rydym hefyd yn anfon holiaduron o bryd i'w gilydd ac mae gennym arolwg survey monkey ar-lein i gael adborth ar ein gwasanaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig. Mae ein llochesau a'n llety â chymorth yn cynnal cyfarfodydd wythnosol a misol â chleientiaid i ganfod eu barn am welliannau arfaethedig i lety a gweithgareddau.
5. Fel arfer, mae'r ymgysylltu ar ffurf ymchwil ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ac nid yn gyfyngedig i oroeswyr VAWDASV ond gellir eu cynnwys.
6. Defnyddir Holiaduron Ymadael ar ddiwedd y gefnogaeth ac mae'r holl gefnogaeth a ddarperir wedi'i theilwra i'r unigolyn. Mae DPP hefyd yn cynnal ymarfer adborth gan ddioddefwyr.
7. Digwyddiadau, hyfforddiant, cymorth gan gyfoedion, aelodaeth ar baneli ac ati.
8. Rhwydwaith.

Cwestiwn 7: Pa gefnogaeth rydych chi'n ei chynnig i oroeswyr i'w galluogi i ymgysylltu'n ystyrlon

1. Cynnig llais mewn lleoliadau addysg.
2. Lle rydym wedi gofyn am gyfranogiad dros gyfnod hirach gan oroeswyr, byddwn yn cefnogi gyda rhyw fath o gymorth drwy dalebau/arian.
3. Cyfeirio ymlaen at asiantaethau arbenigol os oes angen ar ôl i asesiad anghenion cynhwysfawr gael ei wneud gyda nhw.
4. Byddwn yn aml yn cyfeirio at asiantaethau partner i ddarparu cymorth cyffredinol.
5. Cynigir rhywfaint o gymorth ariannol pan fo hynny'n briodol ar gyfer darnau o waith – mae cadw perthynas wirfoddol yn bwysig i lawer.
6. Rydym yn gweithio tuag at gynnig cefnogaeth ariannol lle mae goroeswyr yn cael eu had-dalu am eu costau, fodd bynnag nid yw hyn wedi ei gwblhau eto.

Cwestiwn 8: Yn eich profiad chi, beth yw'r tri hwylusydd gorau sy'n galluogi goroeswyr i ymgysylltu'n ystyrlon?

1. Empathi, gwybodaeth, a dealltwriaeth.
2. Hyfforddiant penodol, ymgyfarwyddo â phapurau ymlaen llaw/cyfieithu dogfennau, grwpiau ffocws.
3. Bod gyda goroeswyr eraill, Cael cymorth i gymryd rhan gan CADD/gweithiwr cymorth, Bod yn barod i gymryd rhan.
4. Amser, ymddiriedaeth ac eiriolaeth.
5. Ymddiriedaeth y bydd llais goroeswyr yn cael ei glywed a'i weithredu arno, Sicrhau bod goroeswyr yn cael adborth, Sicrhau amgylchedd diogel a chroesawgar.
6. Gwaith therapiwtig, gwaith grŵp, adborth ar wasanaethau a chynlluniau ar gyfer gwasanaethau i'r dyfodol.
7. Cymorth gofal plant a theithio, cefnogaeth iaith, cefnogaeth emosiynol.
8. Ymddiried yn y sefydliad/hwylusydd, Bod yn onest gyda nhw, Gwneud y sesiynau'n hwyl a heb fod yn rhy drwm.

9. Cael eu talu am eu hamser, yn enwedig os ydynt o grŵp sydd wedi'i leiafrifoli, Dealltwriaeth gliriach o'r hyn maent yn cyfrannu ato a'r effaith y gallai ei chael, Rheoli eu disgwyliadau fel y gallant wneud penderfyniad gwybodus ar yr hyn y byddant yn ei gael o gymryd rhan.
10. Cael eu credu, teimlo'n emosiynol ddiogel a bod pobl yn gwrando arnynt, teimlo ei fod yn amgylchedd diogel - mynediad priodol at ymweliadau cartref, allgymorth neu gymorth ffôn neu Teams pa un bynnag sy'n diwallu anghenion y goroeswr orau.
11. 1. Sicrwydd eu bod yn cael eu credu a'u bod yn ddiogel, 2. Cefnogaeth emosiynol, 3. Cadw apwyntiadau / peidio â chanslo neu aildrefnu ar fyr rybudd.
12. Arbenigedd, Dealltwriaeth a gwybodaeth, Ymddiriedaeth.
13. 1. Hyder yn y sefydliad, 2. Teimlo'u bod yn cael eu cefnogi gan gynnwys hyfforddiant lle bo angen, 3. Sicrhau bod gan oroeswyr yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gymryd rhan ac ymgysylltu.
14. Ymddiriedaeth, cymhelliant, hyder.
15. Adnabod y staff sydd â gofal dros grwpiau, teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi, deall beth fyddwn ni'n ei wneud gyda'r wybodaeth a'r syniadau sy'n cael eu rhannu.
16. Dealltwriaeth sefydliadol (nid tocenistaidd yn unig, gan gynnwys dealltwriaeth dda iawn o drawma a risg), hyfforddiant i oroeswyr (cyfryngau/siarad cyhoeddus), rheoli rhyngweithio a disgwyliadau.
17. 1. Teimlad y bydd ymgysylltu o fudd iddyn nhw. 2. Gwybod y bydd ymgysylltu yn cael effaith gadarnhaol ar eraill. 3. Ymdeimlad o ddiogelwch, ymddiriedaeth a chyfrinachedd - gwybod sut y bydd data'n cael ei ddefnyddio ac ymddiried yn y gofod.
18. Cael eu credu, Cael amgylchedd cyfforddus, Dim cyfyngiadau amser ar ymgysylltu.
19. Gofod diogel, mynediad at gefnogaeth, amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu.

Cwestiwn 9: Yn eich profiad chi, beth yw'r tri rhwystr pennaf sy'n atal goroeswyr rhag ymgysylltu'n ystyrlon?

1. Amser, pryder am effaith eu hymgysylltiad, ofn y bydd y cam-driniwr yn dod i wybod.
2. Amseru cyfarfodydd, Iaith, Diffyg diddordeb yn y maes sy'n cael ei drafod.
3. Teimlo na fyddan nhw'n cael eu clywed, Ofn, Ddim eisiau cymryd rhan.
4. Ymddiriedaeth, yr effaith ar eu plant a'u ffordd o fyw wrth geisio ymdopi ag effaith CD.
5. Diffyg cyfle i gymryd rhan mewn cyfleoedd effeithiol, Cael eu credu - mae rhai goroeswyr wedi dweud eu bod wedi ceisio dweud wrth eraill ac nad ydynt wedi cael eu credu, Heb gael gwybod beth sy'n digwydd gyda'r adborth, ac ati.
6. Amgylchiadau unigol, lle maen nhw ar eu taith, gofal plant.
7. Iaith, gofal plant, teithio.
8. Ail-drawmateiddio, Ofn, Siarad mewn grŵp.
9. Teimlo eu bod yn cael eu hecsbloetio (heb eu talu), Poeni am ail-drawmateiddio a'u hiechyd, Diffyg ymddiriedaeth yn y sawl y mae gofyn iddyn nhw ymgysylltu â nhw/y sefydliad maen nhw'n gweithio gydag e
10. Teimlo'n ddiogel i ymddiried mewn gweithwyr gyda'u stori, heb gael eu barnu, oriau agor asiantaethau arbenigol.
11. 1. Ofn, 2. Credu na fydd ymgysylltu yn helpu nac yn cyflawni unrhyw beth, 3. Blinder.
12. Diffyg Ymddiriedaeth, Diffyg Cefnogaeth, Diffyg Arbenigedd.
13. 1. Ymatebion trawma, 2. Wedi'u llethu gan wybodaeth dechnegol, 3. Methu cael amser i ffwrdd â thâl o'r gwaith.
14. Ariannol, trafnidiaeth.

15. Diffyg hyblygrwydd gydag amseroedd sy'n gweddu i'r cyfranogwyr, goroeswyr yn teimlo mai dim ond ymarfer ticio blychau ydyw, teimlo'n nerfus ynghylch siarad/cyfrannu.
16. Ymgysylltu tocenistaidd gan asiantaethau sy'n manteisio ar haelioni goroeswyr. Asiantaethau yn ymateb mewn ffyrdd nad ydyn nhw wedi'u llywio gan wybodaeth am drawma, a hyn yn ail-drawmateiddio goroeswyr ac yn eu rhoi mewn perygl. Amserlenni byr a cheisiadau afrealistig sydd ddim yn cydnabod elfen wirfoddol ymgysylltu.
17. 1. Ddim yn gwybod beth sydd ar gael, sut i'w gyrchu. 2. Ofn a phryder ynghylch beth i'w ddisgwyl, sut y byddan nhw'n cael eu cefnogi. 3. Diffyg adnoddau i ad-dalu'n effeithiol neu gefnogi gofal plant ac ati.
18. Ofn datgelu rhag ofn i'r tramgwyddwr ddod i wybod, Ofn peidio â chael eu credu, Ofn peidio â bod yn rheoli eu hamgylchiadau eu hunain.
19. Cyfathrebu gwael, rhannu eu barn ond neb yn gwrando arnyn nhw, ddim yn gweld unrhyw beth yn cael ei wneud er gwaethaf eu profiadau.

Cwestiwn 10: Allwch chi roi hyd at dair enghraifft o fesurau rydych chi wedi'u mabwysiadu o fewn eich sefydliad i ymgysylltu'n llwyddiannus â goroeswyr?

1. Cyswllt drwy e-bost/neges testun i gadarnhau pwy ydyn ni, egluro na fydd ein rhif yn cael ei ddangos fel eu bod yn ymwybodol o flaen llaw, cadarnhau cyfrinachedd.
2. Grwpiau ffocws, Anogaeth a chefnogaeth staff, Talu treuliau
3. Gwaith grŵp / Cynnal digwyddiadau penodol/ Cymorth gan gymheiriaid.
4. Amser a dealltwriaeth, Gwrando ar yr effaith, Eiriolaeth sy'n rhoi llais iddyn nhw neu gyswllt â lleoliad addysg a chyfeirio at gymorth ychwanegol.
5. Datblygu grŵp goroeswyr a gafodd ei gefnogi heb orfodi'r grŵp i gydymffurfio â'n gofynion. O ganlyniad sefydlwyd grŵp ganddyn nhw eu hunain. Rydym wedi sefydlu tîm ffocws cyfranogiad ar gyfer ein defnyddwyr iau sy'n rhoi adborth.
6. Darparu trafnidiaeth, cynnig sesiynau sy'n gweithio o gwmpas amseroedd ysgol, cyfyngu ar yr angen i deithio'n ormodol.
7. Goroeswyr yn cael eu cydnabod fel arbenigwyr, staff ymroddedig sy'n cefnogi eu hanghenion emosiynol, darparu lle diogel i gwrdd.
8. Polau/arolygon ar-lein, Creu paned a sgwrs anffurfiol ac yna canolbwyntio ar un maes, cadw sesiynau'n fyr (cael ei ddatblygu ar hyn o bryd), Eisoes yn siarad gyda grŵp sefydledig, e.e., ar gwrs.
9. Gwell cymhellion ariannol (nid talebau yn unig!), Defnyddio sefydliadau arbenigol i gefnogi a hwyluso ymgysylltu, Helpu pobl i gael mynediad.
10. Sawl ymgais i gysylltu ar rif, neges destun neu e-bost diogel, ar gael yn hwyr os oes angen, cydweithio gydag asiantaethau CD arbenigol.
11. Defnyddio swyddogion cam-drin domestig, 2. Paneli goroeswyr, 3. dull trawma-wybodus o ymgysylltu â goroeswyr.
12. Prosesau clir i ymgysylltu, Cyswllt a chefnogaeth ar gael, Gwybodaeth.
13. Arolygon ar-lein/gweithdai zoom, 2. Adnoddau ar-lein, 3. Ymateb yn brydlon i ymholiadau gan oroeswyr.
14. Hyfforddiant, hyder.
15. Bod yn hyblyg bob amser gydag amseroedd a dyddiadau, egluro'r rhesymau dros yr ymgysylltu a gweithredu ar adborth, grymuso goroeswyr trwy gefnogaeth.
16. [wedi ei olygu] yn egluro bwriad y sefydliad a chynllunio ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr. Pecyn cymorth ymgysylltu ystyrlon â goroeswyr wedi'i gyd-gynhyrchu â goroeswyr.[Wedi ei olygu] llawn amser i weithio'n benodol gyda goroeswyr.

17. Creu rôl swyddog arweiniol ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth yn y tîm staff, ac ar fwrdd yr ymddiriedolwyr. Crëwyd polisi cynnwys defnyddwyr gwasanaeth/cyd-gynhyrchu. Creu sawl ffordd y gall goroeswyr gyfranogi, o gyfleoedd untro i wirfoddoli ymroddedig.
18. Amser, rhoi amser i gleient, amser i deimlo'n gyfforddus gyda'r gweithiwr cymorth, sy'n caniatáu perthynas waith bositif a chyfforddus.
19. Dewis o ymgysylltu, wyneb yn wyneb, rhithwir a'r tu allan i oriau arferol. Mynediad i gymorth a mabwysiadu dull cyd-gynhyrchu.

Cwestiwn 11: Oes gennych chi unrhyw ymgynghoriadau sydd wedi'u cyhoeddi, yn fyw neu ar y gweill yr hoffech eu rannu gyda ni? Rhowch URL lle bo'n bosibl (14 ymateb o'r 14 a atebodd, atebodd pob un 'na' ac eithrio'r 5 isod):

1. Mae ein hadroddiad blynyddol yn dangos hyn: [wedi ei olygu]
2. Gwaith ar y gweill gyda menywod yn y system cyfiawnder troseddol. Gwaith blaenorol [wedi ei olygu]
3. Rydyn ni'n cael ymgynghoriadau goroeswyr rheolaidd ar-lein gyda'r Heddlu yn rhan o sesiynau grwpiau gwaith/coffi a sgwrsio. Yn ddiweddar fe wnaethon ni dalu ymgynghorydd i gwrdd â merched i drafod eu barn ynghylch canolfan i ferched rydyn ni'n ei hagor ac rydyn ni'n disgwyl yr adborth ym mis Mehefin.
4. [wedi ei olygu]
5. Cynhaliwyd 2 grŵp ffocws [wedi ei olygu]. Grŵp ffocws ar y gweill ynghylch ymyrraeth gynnar a'r dull Newid sy'n Para.

Cwestiwn 12: Oes unrhyw wybodaeth arall yr ydych am ei rhannu ynghylch ymgysylltu â goroeswyr? (16 ymateb)

1. Mae gweithio gyda thramgwyddwyr yn hanfodol er mwyn i ni fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol a lleihau dioddefwyr/goroeswyr dro ar ôl tro.
2. Sefydlu canolfan gyd-gynhyrchu - ymgysylltu â goroeswyr yn ganolog i hyn.
3. Mae'n broses anodd ond angenrheidiol y mae angen i ni i gyd ei chynnwys ym mhob agwedd ar ein gwaith
4. Mae'r effaith ar blant a'u haddysg yn enfawr. Mae plant yn cael eu hystyried yn barhaus fel problemau ymddygiad ac nid dioddefwyr. Blaenoriaeth mam yw cadw ei phlant yn ddiogel ac felly hefyd ysgolion, ond mae'r gefnogaeth yn ddigyswllt ac yn fylchog.
5. Mae gan ein sefydliad oroeswyr yn rhedeg y sefydliad, ond dywedir wrthon ni'n aml oherwydd ein bod yn sefydliad arbenigol proffesiynol nad oes gennym brofiad goroeswyr wrth wraidd yr hyn a wnawn. Mae'r profiad hwnnw gyda ni, oherwydd bod rhai wedi byw'r profiad ac er nad ydyn ni bob amser yn mynegi hyn oherwydd ein bod ni'n broffesiynol byddai'n dda pe bai hyn yn cael ei gydnabod. Hefyd, mae ymgysylltu â goroeswyr yn cymryd amser ac mae angen gweithio'n ofalus arno, ond rydyn ni wedi ei chael hi'n anodd cael arian i wneud hyn yn iawn. Yn ein hardal ni mae'r sector statudol yn sefydlu rhywbeth ond does neb yn ein sefydliad h.y., goroeswyr yn gwybod amdano – ond dywedir wrthon ni bod y dull maen nhw'n ei ddefnyddio wedi'i lywio gan oroeswyr. Ddim yn siŵr pwy sydd wedi cyfrannu.
6. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio i ddatblygu strategaeth cynnwys tenantiaid newydd yn unol â chanllawiau LlC ar gyfer landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.
7. Mae'n bwysig cael rheolwr penodol ar y gwaith o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth.
8. Mae'n rhaid gwneud hyn yn sensitif a gyda'r sefydliad arbenigol yn cymryd rhan, mae angen iddyn nhw wybod ei fod yn ddienw, byddwn yn argymell creu perthynas yn gyntaf.
9. Mae gwir angen i ni feddwl yn ofalus am ymgysylltu â goroeswyr o grwpiau sydd wedi'u lleiafrifoli'n hiliol, ac yn fwy gofalus am beidio â chael ein gweld fel rhai sy'n manteisio ar

bobl oherwydd bod angen i ni ddod o hyd i oroeswr i siarad. Llinell denau sydd rhwng clywed llais goroeswr, a phwy sy'n cael eu blaenoriaethu a phwy sy'n cael eu hecsbloetio/tawelu.

10. Rwy'n credu bod angen i ni wneud mwy a'i wneud yn well gan nad oes unrhyw un gwell i ddweud beth sydd ei angen na goroeswyr.
11. Rydym yn ymgynghori ag aelodau'r fforwm goroeswyr ynghylch aelodaeth a chyfansoddiad y fforymau i sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd sensitif sy'n deall trawma. Lluniwyd ein gwaith yn datblygu [wedi'i olygu] drwy gyd-gynhyrchu ac ymgysylltu â goroeswyr. Yr adborth gan y goroeswyr yw eu bod yn teimlo bod eu hyder wedi codi a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am gyfrannu eu profiadau i'r ymdrech i gefnogi eraill. Rydyn ni'n teimlo'n gryf y dylai goroeswyr gael eu talu am yr amser maen nhw'n ei roi i brosiectau.
12. Mae'n anodd iawn cael atgyfeiriadau ar gyfer goroeswyr i'n cyrsiau. Mae cynifer o asiantaethau'n brin o staff, neu mae llwyth gwaith yn rhy uchel i allu hyrwyddo.
13. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar ehangu'r cyfleoedd i ymgysylltu â goroeswyr drwy sefydlu panel arbenigol mwy ffurfiol.
14. Mae gan [wedi'i olygu] dros 40 mlynedd o brofiad o weithio gyda goroeswyr yn y sector hwn ac mae ar flaen y gad o ran ymarfer gorau. Rydym yn hapus i rannu'r dysgu hwn, fodd bynnag, bwriad ein Rhwydwaith Goroeswyr yw bod yn amgylchedd diogel a chefnogol i ganiatáu i asiantaethau ymgysylltu â goroeswyr yn ystyrlon. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus i ymgysylltu drwy fecanweithiau'r sefydliadau arbenigol presennol hyn lle bo hynny'n bosibl, yn hytrach na'r duedd o sefydlu eu grwpiau annibynnol eu hunain nad ydynt yn cael y budd o gefnogaeth a blynyddoedd o ddysgu parhaus o'r sector.
15. Rydym wedi gweld po fwyaf o gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer ymgysylltiad gan oroeswyr, mewn sawl ffordd (e.e., arolygon, grwpiau ffocws, gwirfoddoli, bod yn hwylusydd cyfoedion, prosiectau cyd-greu, ac ati), sy'n seiliedig ar gryfderau ac wedi'u llywio gan wybodaeth am drawma, y mwyaf rydym ni a'r goroeswyr yn ei gael ohono. Mae'n broses gyfannol iawn. Mae gwybod terfynau'r ymgysylltu ac nad oes rheidrwydd (ond efallai y bydd cyfleoedd) y tu hwnt iddo yn ddefnyddiol, mae'n creu ymdeimlad o hyder a chyfrannu parod. Rydym hefyd wedi gweld goroeswyr yn rhannu eu profiadau am y tro cyntaf erioed mewn grwpiau ffocws, a gall hyn fod yn drawsnewidiol, ac agor y drws i ymgysylltu gyda grwpiau eraill e.e., cymorth gan gyfoedion.
16. Y rhwystredigaeth fwyaf i oroeswyr yn clywed yr un cwestiynau'n cael eu gofyn sawl gwaith a dim byd yn newid.